



GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG  
CANLLAWIAU  
CEFNOGI SWYDDI

## 1 AMCANION

Er mwyn helpu cyhoeddwy i gynhyrchu llyfrau o safon uchel a'u cynorthwyo i hyrwyddo'r llyfrau hyn, mae grantiau ar gael ar gyfer swyddi Golygyddol a Marchnata.

Uchafswm y grant sydd ar gael ar gyfer swydd lawn-amser yw £15,000 neu 75% o'r costau (gan gynnwys y cyflog a chyfraniadau YG y cyflogwr), pa un bynnag yw'r lleiaf. Er bod y Cyngor Llyfrau'n annog creu swyddi llawn-amser ar gyfer gweithwyr llawn-amser, mae swyddi rhan-amser a chytundebau llawrydd rheolaidd yn dderbyniol. **Nid yw'r cynllun hwn yn cefnogi defnyddio nifer fawr o weithwyr llawrydd.**

Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n gweinyddu cynllun ar wahân ar gyfer Cefnogi Swyddi i gyhoeddwyr teitlau Cymraeg.

## 2 CYMHWYSTER

### ***Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?***

Cyhoeddwy'r yng Nghymru sydd â rhaglen gyhoeddi reolaidd o ysgrifennu Saesneg o ansawdd uchel sy'n rhagori'n ddiwylliannol neu lenyddol.

## 3 MEINI PRAWF A BLAENORIAETHAU AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

O dan y cynllun hwn rhoddir blaenoriaeth i gyhoeddwy'r llyfrau uchel eu hansawdd sy'n rhagori'n llenyddol neu ddiwylliannol.

Cloriennir y rheini sy'n derbyn grantiau ar hyn o bryd ar sail:

- ansawdd y gwaith a wneir gan unigolion y cefnogir eu swyddi drwy'r cynllun hwn;
- gwerth y swydd unigol o fewn y cwmni;
- safon olygyddol rhestrï perthnasol y cyhoeddwy'r yn achos golygyddion a gefnogir;
- ffigurau gwerthiant a phroffil rhestrï perthnasol y cyhoeddwy'r yn achos swyddi marchnata a gefnogir.

Cloriennir ymgeiswyr newydd ar sail:

- eu hymrwymiad i ysgrifennu Saesneg o safon uchel yng Nghymru;
- safonau cynhyrchu a dylunio cyhoeddiadau presennol;
- y swydd ddisgrifiad ar gyfer y swydd a gefnogir;
- rhestr o ganlyniadau a ddisgwylir y gellir cymharu llwyddiant y swydd yn ei herbyn;
- eu gallu i dangos fod arnynt angen mwy o ariannu.

## 4 Y GRANT

Cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun hwn yw oddeutu £100,000. Uchafswm y grant sydd ar gael ar gyfer swydd lawn-amser yw £15,000 neu 75% o'r costau (gan gynnwys y cyflog a chyfraniadau YG y cyflogwr), pa un bynnag yw'r lleiaf.

## 5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

Fel arfer bydd grantiau'n cael eu dyfarnu am gyfnod o dair blynedd. Mae dyddiad cau nesaf y cais, ynghyd â manylion ynghylch y cyfnod ariannu ac amcangyfrif o ran amseriad y penderfyniad ar gael ar wefan y Cyngor Llyfrau.

Gwahoddir ymgeiswyr newydd i ofyn am wybodaeth bellach am gymhwyster a'r drefn ymgeisio o'r cyfeiriad isod.

## 6 TALU'R GRANTIAU

Fel arfer telir y grantiau fesul chwarter, ymlaen llaw.

## 7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn i gyhoeddwyr ddarparu rhestrau o deitlau y bu staff a gefnogwyd trwy'r cynllun hwn yn gweithio arnynt ac o bryd i'w gilydd byddant yn asesu ansawdd y cynnyrch a/neu werthiant teitlau perthnasol.

**Gelir cael ffurflenni cais a chyngor pellach oddi wrth yr:**

**Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan,  
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB  
e-bost: [english.grants@books.wales](mailto:english.grants@books.wales)**